

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe, ar nos Fercher, Chwefror 26^{ain}, 2020 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr	Mrs K.D.L. Davies	R. A. Davies	Mrs J.E. Collins
	W.D. Evans	Mrs C. Thomas	Mrs A. Evans
	Mrs S. E. Thomas	Mrs Ll. Hindley	P.H. Roberts
	A.W. Jones	E.W. Nicholas	I. Rh. Llewelyn
	B. Rees	D. Hopkins	N. Evans

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	D. Nicholas	Mrs Ll. Latham
------------	-------------	----------------

680.

Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

681.

COFNODION

Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 26^{ain}, 2020
Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Ionawr 26^{ain}, 2020.
Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar Chwefror 5^{ed} 2020.
Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd ar Chwefror 5^{ed} 2020.

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnod cywir.
Penderfynwyd hefyd gadarnhau argymhellion y pwyllgorau.

682.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cofnodion yn codi o'r Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar Ionawr 26^{ain}, 2020.

1) Cofnod 663 - Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adnuedig – roedd y Clerc wedi'i hysbysu bod y cyfnod ymgynghori wedi'i ymestyn am 14 diwrnod arall hyd at Fawrth 27^{ain}, 2020.

2) Cofnod 666 – Talu'r Cyfrifon – Roedd y Cynghorydd Bryan Rees wedi cwestiynu'r taliad misol am drydan ym Mhafiliwn Bowlio a Thenis Llandybïe. Roedd y Clerc ar ddeall bod y gwresogyddion stôr yn dod ymlaen ar amser ydd yn ddyddiol, a bod hyn wedi dod i ben erbyn hyn. Hefyd, roedd y Clerc wedi gosod hysbysebion i atgoffa pobl i droi'r holl wresogyddion i ffwrdd cyn gadael yr adeilad.

Cofnodion yn codi o'r Cyfarfod Cyllid a gynhaliwyd ar Chwefror 5^{ed}, 2020.

1) Cofnod 675 – Grantiau Ariannol. Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr oddiwrth Mr Howard Beynon i hysbysu'r Aelodau bod Côr Meibion Llandybïe wedi ymwahanu

oherwydd y diffyg cantorion. Roeddent felly am dynnu yn ôl eu cais am gefnogaeth ariannol.

Roedd y Clerc wedi ysgrifennu at Mr Beynon i ddatgan siom y Cyngor o glywed y newyddion, gan ddiolch iddynt am eu cyfraniad i'r gymuned dros y 112 mlynedd y maen nhw wedi bod mewn bodolaeth.

GOHEBIAETH

683.

Adroddiadau'r Heddlu ynghylch troseddau

Crynodeb o'r ystadegau trosedd ar gyfer Chwefror 2020:

Llandybïe

Trosedd Rhywiol 1

Trais gydag Anaf 2

Saron, Capel Hendre a Phenybanc

Bwrgleriaeth 4

Lladrad Arall 1

Difrod Troseddol 2

Trais heb Anaf 4

Dwyn 4

Trosedd Rhywiol 1

Penygroes

Troseddau Cerbyd 1

Trais heb Anaf 3

Lladrad Arall 1

Trosedd Rhywiol 1

684.

Adnewyddu tanysgrifiad i Un Llais Cymru ar gyfer 2020/2021

Ebrill 1^{af} 2020 yw dyddiad adnewyddu'r tanysgrifiad i'r gymdeithas hon, ac roedd y Clerc wedi derbyn anfoneb am £1,740. Mae'r ffi yn seiliedig ar 5180 annedd preswyl (a gymerwyd o'r Rhestrau Ardrethi) yn cyfrannu £0.336c am bob annedd preswyl. Gan fod mwy a mwy o gyfrifoldebau yn cael eu datganoli i Gynghorau Cymuned, roedd y Clerc wedi cynghori'r Aelodau bod y diweddariadau cyson a ddarperir gan Un Llais Cymru ynghylch materion yn ymwneud â materion lleol, gofynion cyfreithiol ac ariannol ac hyfforddiant yn adnodd gwerthfawr iawn, ac roedd wedi argymhell bod y Cyngor yn parhau gyda'i aelodaeth.

Penderfynwyd adnewyddu'r aelodaeth am y flwyddyn a ddaw i ben ar Fawrth 31^{ain}, 2021, ac i dalu'r swm o £1740.

685.

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blyneddol 2019/20

Roedd y Clerc wedi hysbysu'r Aelodau bod Cyngor Cymuned Llandybïe yn aros ym Mand A, gan adlewyrchu'r ffaith bod incwm y llynedd yn dal dros y trothwy o £200,000.

Cadeirydd

Penderfynodd yr Aelodau dderbyn penderfyniadau'r PACGA sy'n berthnasol i Gynghorau Cymuned fel a ganlyn:

Penderfyniad 42 – Rhaid i bob Cyngor Cymuned a Thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w aelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau. Gan fod y taliad yn un gorfodol, rhaid ei dalu i bob Cynghorydd onibai bod y Cynghorydd unigol yn gwneud y dewis personol i ymrwrthod â'r hawl, neu ran ohono.

Penderfyniad 43 - Rhaid i gynghorau tref a chymuned yng Ngrŵp A sicrhau bod taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i isafswm o 1 ac uchafswm o 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol, megis cadeirio pwyllgorau. Gan fod y taliad yn un gorfodol, rhaid ei dalu i bob Cynghorydd onibai bod y Cynghorydd unigol yn gwneud y dewis personol i ymrwrthod â'r hawl, neu ran ohono.

Penderfynwyd taw dim ond y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd sy'n gymwys i dderbyn y taliadau hyn, gan y byddai un ohonynt bob amser yn cadeirio'r pwyllgorau. Gan fod y taliad yn un gorfodol, rhaid ei dalu i bob Cynghorydd onibai bod y Cynghorydd unigol yn gwneud y dewis personol i ymrwrthod â'r hawl, neu ran ohono.

Penderfyniad 44 – 49. Mae'r rhain yn cydnabod, pe byddai cais addas yn cael ei wneud, y dylid ad-dalu costau teithio, costau cynhaliaeth, talu iawndal i'r aelodau pan fyddant yn dioddef colled ariannol o ganlyniad i fynychu cyfarfodydd, ac ad-dalu costau gofal a chymorth personol.

Penderfyniad 50 a 51 – Gall y Cyngor ddarparu taliad i Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £1,500 ac i Is-Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £500.

Penderfynwyd cadw Lwfans y Cadeirydd fel ag y mae, sef £300.

686.

Cau llwybr troed dros-dro

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin i hysbysu'r Aelodau eu bod wedi derbyn cais i gau llwybr troed 51/105 am gyfnod o 3 wythnos fel bod Western Power yn gallu gosod cebl trydan foltedd uchel.

Cytunodd yr Aelodau i nodi'r wybodaeth.

687.

Cynhadledd Cynghorau Tref a Chymuned 2020

Roedd pob aelod wedi derbyn gwahoddiad i fynychu'r gynhadledd Cynghorau Tref a Chymuned a gynhelir ym Mharc Y Scarlets, Llanelli ar Fawrth 18^{fed}, 2020, ac a drefnir ar y cyd gan Un Llais Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin. Nod y diwrnod yw rhannu gwybodaeth, rhwydweithio a thrafod rhai o'r materion allweddol sy'n wynebu'r Sir yn y flwyddyn sydd i ddod.

688.

Gosod terfynau cyflymder newydd

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu cyflwyno terfyn cyflymder o 30 mya yn Heol Ddu ar yr U4304, o'i chyffordd gyda'r C2210 am bellter o 765 metr, a hynny i gyfeiriad cyffredinol gogledd ddwyreiniol.

Hefyd, cynigir gosod terfynau cyflymder o 40 mya yn y manau canlynol:

C2137 yn Llandyfan – o leoliad 120 metr i'r gogledd o'i chyffordd gyda'r C2142 am bellter o 335 metr.

U4304 Heol Ddu – o leoliad 520 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd gyda'r C2141 am bellter o 1.16km

C2142 Llandyfan – o'i chyffordd gyda'r C2137 am bellter o 2.53km

Penderfynodd yr Aelodau i beidio gwrthwynebu'r cynigion hyn.

689.

Gwaharddiadau Aros ar yr A483 ym Mhenybanc

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Llywodraeth Cymru i hysbysu'r Aelodau eu bod yn bwriadu gwahardd aros ar y ddwy ochr o'r A483, yn ymestyn o leoliad 147 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd gyda Heol Parklands hyd at bwynt 350 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno. Caniateir esemptiad i ddeiliaid bathodynau person anabl.

Penderfynodd yr Aelodau i beidio gwrthwynebu'r cynigion hyn.

690.

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Egwyddorion sy'n berthnasol i ad-dalu Costau Gofal Cyngorwyr

Roedd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi agor ymgynghoriad i ddod o hyd i ffyrdd o gynyddu'r nifer o Gynghorwyr sydd â chostau gofal neu anghenion personol sy'n hawlio cymorth ariannol.

Gofynnwyd i'r Aelodau gwbhau'r ddogfen cyn Ebrill 9^{fed}, 2020, fel bod modd ei gynnwys yn yr Adroddiad Terfynol ac, yn y pen draw, ei fabwysiadu gan yr holl awdurdodau perthnasol.

691.

GILFACH IAGO

Roedd y Clerc wedi'i hysbysu drwy lythyr bod Jonathan Edwards AS ac Adam Price AC wedi anfon llythyr ar y cyd, yn amlygu'r problemau, at Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Glo.

Roedd y Clerc wedi ysgrifennu llythyr arall at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn am ddiweddariad o'r costau, ac i holi ynghylch ymrwymiad Celtic Energy i fwrw ymlaen

gyda'r gwaith. Nid oedd wedi derbyn unrhyw ymateb ond roedd wedi cael ar wybod bod cyfarfod gyda Celtic Energy wedi'i drefnu i'w gynnal ar Fawrth 4^{ydd}, 2020.

Penderfynwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Ruth Mullen i'w hatgoffa bod angen trafod gyda Celtic Energy y cwestiwn o daliad ariannol er budd y gymuned, a dylid ychwanegu'r eitem hwn yn ffurfiol at agenda'r cyfarfod. Hefyd, fe benderfynwyd bod y Cynghorwyr Sir yn cysylltu â Ruth Mullen i weld beth yw'r sefyllfa gyfredol.

ADRODDIAD Y CLERC

692.

a) Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Yn ystod y stormydd diweddar roedd canghennau mawrion wedi cwmpo ar Lwybr Troed 51/36 yng Nghaerfyrddin ac ar Lwybr Troed 51/52 ym Mhenygroes ac wedi blocio'r ddau lwybr troed. Roedd y Clerc wedi gofyn i Dynevor Tree Services glirio'r llwybrau, a derbyniwyd anfoneb am £180 am wneud y gwaith.

Penderfynwyd y dylid talu'r anfoneb.

b) Sied ym Mhafiliwn Bowlio a Thenis Llandybïe

Yn ystod y tywydd stormus diweddar roedd to y sied sy'n cynnwys yr offer trydanol ar gyfer y system chwistrellu wedi'i chwythu i ffwrdd. Roedd y Clerc wedi gofyn i dîm argyfwng Cyngor Sir Caerfyrddin i anfon saer coed a thrydanwr i'r safle er mwyn gwarchod y ceblau trydanol, y pypiau a'r socedi a leolir yn y sied. Cafodd y to ei amnewid ar y diwrnod canlynol gan y contractwr lleol M McLelland am bris o £84.62 heb godi TAW.

Oherwydd bod yr offer trydanol wedi bod yn agored i'r tywydd cyn bod y gwaith brys wedi'i wneud, argymhellwyd bod trydanwr cymwysedig yn trwsio'r system gyfan cyn ei bod yn cael defnydd pellach. Roedd y Clerc wedi trefnu bod cwmni D J Electrical yn gwneud y gwaith am bris o £200 a TAW, gydag unrhyw waith gweddilliol wedi'i gymeradwyo at ddibenion diogelwch.

Penderfynwyd y dylid talu'r anfoneb.

c) Parc Penybanc

Diolchodd y Cynghorydd Mrs K.D.L Davies i'r Cynghorwyr Mrs C Thomas a Mrs A. Evans am drefnu holiadur i'r preswylwyr lleol i weld beth yw'r defnydd cyfredol, a pha offer chwarae y byddant am weld yn y parc pe byddai'r Cyngor yn ystyried gwneud gwelliannau. Roedd yr adborth wedi bod yn ardderchog a phenderfynwyd y dylai'r Pwyllgor Parciau ac Ardaloedd Chwarae ystyried y prosiect, derbyn prisiau addas ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn ynghylch eu cynigion.

ch) Gwelliannau i'r arolygon parc

Cyflwynwyd i'r Aelodau rhestr o'r gwaith a gwblhawyd. Derbyniwyd anfoneb am £500 heb TAW oddiwrth P Bishop a, gyda chydsyniad y Cadeirydd, talwyd yr anfoneb.

693.**MATERION ARIANNOL****(i) Talu'r biliau**

Adroddodd y Clerc i'r biliau canlynol gael eu derbyn yn ystod mis Chwefror 2020 a, gyda chydsyniad y Cadeirydd, eu talu:

5080	Morgan and Morgan	Inc i'r argraffydd	£43.19
5102	P Bishop	Gwaith i offer y parciau er mwyn dileu materion yn ymwneud â risgau arolygu	£500.00
5109	M McClelland	Atgyweirio to Pafiliwn Llandybïe a ddifrodwyd gan storm	£84.62

Yn ychwanegol, derbyniwyd yr anfonebau a'r ceisiadau am dâl canlynol:

5081	S Griffith	Cyflog Chwefror gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa	£2182.80
5082	R Thomas	Cyflog Cwefror gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa	£627.40
5083	Cyllid y Wlad	Chwefror 2020	£885.83
5084	Canolfan y Byddar, Llanelli	Grant y Cyngor Cymuned	£100.00
5086	Cymdeithas Gefeillio Llandybïe	Grant y Cyngor Cymuned	£200.00
5087	Cymdeithas Gorawl Rhydaman a'r Cylch	Grant y Cyngor Cymuned	£200.00
5088	Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2021	Grant y Cyngor Cymuned	£100.00
5089	Ffrindiau Tenovus Llandybïe	Grant y Cyngor Cymuned	£200.00
5090	Gwasanaeth Gwybodaeth a Chefnogaeth Canser		£150.00
5091	Healthy Allsorts	Grant y Cyngor Cymuned	£100.00
5092	Cyngor Ysgol Blaenau	Grant y Cyngor Cymuned	£400.00
5093	Cylch Meithrin Penygroes	Grant y Cyngor Cymuned	£300.00
5094	Cylch Meithrin Blaenau	Grant y Cyngor Cymuned	£300.00
5095	Sefydliad y Merched Llandybïe	Grant y Cyngor Cymuned	£200.00
5096	Papur Newydd Llafar	Grant y Cyngor Cymuned	£100.00

Cadeirydd

5097	Cymdeithas Henoed Penygroes	Grant y Cyngor Cymuned	£300.00
5098	Cymdeithas Lesiant Gymunedol Caerbryn	Grant y Cyngor Cymuned	£625.00
5099	Neuadd Lesiant Penygroes	Grant y Cyngor Cymuned	£825.00
5101	Y Deml Apostolaidd Penygroes	Grant y Cyngor Cymuned	£250.00
5103	Swyddfa Archwilio Cymru	Archwilio cyfrifon 2018/19	£516.75
5104	Capel Annibynnol Calfaria, Penygroes	Grant y Cyngor Cymuned	£250.00
5105	Martin Davies	Cyfieithu Cofnodion cyfarfodydd Ionawr, a'r polisi newydd Hylendid Dŵr	£204.15
5106	Un Llais Cymru	Adnewyddu'r Aelodaeth Flynyddol 2020/21	£1740.00
5107	Hsl - Cydymffurfio	Hylendid Dŵr - Pafiliwn Llandybïe	£62.54
5108	Hsl - Cydymffurfio	Hylendid Dŵr - Pafiliwn Saron	£58.20
5110	Jeff's Tipper Hire	Agor a chau'r cyfleusterau cyhoeddus yn ystod Chwefror 2020	£812.00
5111	Dynevor Tree Services	Clirio coed a oedd wedi cwmpo ar lwybrau FP 51/52 a FP 51/36	£180.00
5112	Morgan and Morgan	Inc i'r argraffydd	£66.00
5113	Morgan and Morgan	Lletya parth blyneddol ar gyfer cyfrifon ebost	£88.80
5114	EDF	Pafiliwn Llandybïe – Chwefror 2020	£33.58
5115	EDF	Pafiliwn Saron – Chwefror 2020	£71.41
5116	Hsl - Cydymffurfio	Asesiadau risg ar gyfer hylendid dŵr yn y cyfleusterau cyhoeddus a'r pafiliynau	£816.00

Penderfynodd yr Aelodau y dylid talu'r cyfrifon.

(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol

	2019/20 Elw a Chollod £	2019/20 Amcangyfrif £	Incwm a gwariant gwirioneddol 1.4.19- 31.01.20 £
Praesept	180,000	180,000	180,000
Grant Cynnal a Chadw	46,640	31,617	3,841
Llog: Lloyds	184	250	114
Llog: cyfrifon buddsoddi	306	400	532
Ad-daliad EDF	166	0	1206

Cadeirydd

Hawliau Tramwy	3000	3,000	3000
Llogi'r cyfleusterau	0	4,200	4,700
Ad-daliad CSC o VAS		1800	
	230,296	189,650	193,393

Gweinyddu Cyffredinol	50,722	56,575	19,037
-----------------------	--------	--------	--------

Staffio	41,226		38,760
---------	--------	--	--------

Parciau ac Ardaloedd Chwarae	50,062	30,000	106,253
------------------------------	--------	--------	---------

Taliadau Adran 137	7,348		3,759
--------------------	-------	--	-------

Taliadau yn unol â phwerau eraill	1,850		1,550
-----------------------------------	-------	--	-------

Mannau agored cyhoeddus	1,663		4,450
-------------------------	-------	--	-------

Neuaddau pentref	4,545		2,470
------------------	-------	--	-------

Claddfeydd	3,250	18000	2,250
------------	-------	-------	-------

Hawliau Tramwy – cynnal a chadw	4,745	10000	5,696
---------------------------------	-------	-------	-------

Hawliau Tramwy –
gwelliannau

Goleuo cyhoeddus - ynni	7,877		
-------------------------	-------	--	--

Goleuo cyhoeddus - gwelliant	0	8,500	
------------------------------	---	-------	--

Datblygu Cymunedol	68,555	25,000	30,363
--------------------	--------	--------	--------

Cyfleusterau Cyhoeddus	4,572		
------------------------	-------	--	--

Llandybïe			4,845
-----------	--	--	-------

Cyfleusterau Cyhoeddus			
------------------------	--	--	--

Penygroes	3,704	10,000	5,662
-----------	-------	--------	-------

Lwfans y Cadeirydd	300	300	
--------------------	-----	-----	--

Cyfanswm	250,419	202,031	225,095
----------	---------	---------	---------

Balans am y flwyddyn
(cyfnod)

	-20,123		-31,702
--	---------	--	---------

d/y	438,102		417,979
-----	---------	--	---------

c/y	417,979		386,277
-----	---------	--	---------

Arian parod a buddsoddiadau

Dyledwyr	402,723		377,984
----------	---------	--	---------

Credydwyr	15,256		8,293
-----------	--------	--	-------

	0		0
--	---	--	---

	417,979		386,277
--	---------	--	---------

Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd unrhyw gwestiynau neu sylwadau. **Penderfynodd** yr Aelodau gymeradwyo'r cyfrifon fel uchod.

(iii) Esboniad pan fod y gwariant gwirioneddol yn fwy na 15% o'r cyllid blyneddol hyd yn hyn:

Mae'r gyllideb ar gyfer y Parciau ac Ardaloedd Chwarae wedi'i gor-wario oherwydd talu am welliannau ym mharciau Llandybïe, Penygroes a Saron. Mae'r gyllideb Datblygu Cymunedol wedi'i gor-wario oherwydd y taliad o £25,000 i Glwb Rygbi Penybanc am y prosiect datblygu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad.

694.

Cais am wybodaeth ynghylch cytundebau Adran 106 gan Gyngorwyr Sir

Nid oedd unrhyw gais.

695.

Adroddiadau ynghylch seminarau / cyfarfodydd ar y cyd

Roedd y Cyngorwyr D. Hopkins, W. D Evans a R. A. Davies wedi mynychu'r digwyddiad 'Sgyrsiau Cymunedol', a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol Rheilffordd Calon Cymru yn Neuadd Goffa Llandybïe. Pwrpas y digwyddiad oedd gweld ym mha ffordd y gallai'r gymuned leol a'r Bartneriaeth gydweithio.

Roedd y Cyngorydd D Hopkins hefyd wedi mynychu cyfarfod Cymdeithas Calon Cymru, lle y mynegwyd pryder ynghylch y diffyg gwirfoddolwyr, a'r posibilrwydd go-iawn na fyddai'r pwyllgor yn gallu parhau os na fyddai'n derbyn mwy o gefnogaeth.

696.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar Fawrth 25^{ain}, 2020

697.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.30 yh.